## CYNGOR DINAS CAERDYDD

## MINUTES

## CYFARFOD Y CABINET: ERROR! UNKNOWN DOCUMENT PROPERTY NAME.

| | |
|---|---|
| Aelodau Cabinet yn Bresennol: | Councillor Phil Bale (Chair)<br>Councillor Sue Lent<br>Councillor Peter Bradbury<br>Councillor Dan De'Ath<br>Councillor Bob Derbyshire<br>Councillor Graham Hinchey<br>Councillor Susan Elsmore<br>Councillor Sarah Merry<br>Councillor Ramesh Patel |
| Gwylwyr: | Councillor Dianne Rees<br>Councillor Neil McEvoy<br>Councillor Judith Woodman |
| Swyddogion: | Paul Orders, Chief Executive<br>Christine Salter, Section 151 Officer<br>Marie Rosenthal, Monitoring Officer<br>Joanne Watkins, Cabinet Office |
| Ymddiheuriadau: | |

### 49 DIWEDDARIAD AR YSTÂD BUDDSODDI MEWN EIDDO

***Ni chyhoeddir Atodiad 2 yr adroddiad hwn gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth o'r math a ddisgrifir ym Mharagraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.***

Ystyriodd y Cabinet adroddiad yn manylu ar y Strategaeth Fuddsoddi Mewn Eiddo 5 mlynedd. Yr Ystâd Fuddsoddi yw portffolio'r Cyngor o eiddo anweithredol gaiff ei gadw gyda'r diben pennaf o greu incwm i gefnogi cyllideb refeniw'r Cyngor. Mae Jones Lang La Salle wedi ei benodi fel cynghorydd eiddo allanol y Cyngor ac fe ymgynghorir ag ef ar yr holl drafodion eiddo sy'n effeithio ar yr Ystâd Fuddsoddi.

**PENDERFYNWYD**: y caiff Strategaeth Fuddsoddi'r Ystâd 2016-2021 a atodwyd fel Atodiad 1 yr adroddiad ei chymeradwyo, yn amodol ar ddiwygiad ar dudalen 17 y Strategaeth i nodi Pennaeth Ystadau Strategol a'r Prif Swyddog a ddynodwyd.

## 50 DIWEDDARIAD AR TIDAL LAGOON CAERDYDD

Derbyniodd y Cabinet adroddiad yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa ddiweddaraf o safbwynt cynigion posib i adeiladu Morlyn Ynni'r llanw rhwng Caerdydd a Chasnewydd. Mae'r adroddiad yn manylu ar y cyfleoedd a'r problemau posib gyda chynllun o'r fath.

**PENDERFYNWYD:** y caiff

1. yr adroddiad ei nodi ac, os aiff y project yn ei flaen, i ofyn i'r Pwyllgor Craffu Amgylcheddol i sefydlu proses Grŵp Craffu Gorchwyl a Gorffen gan gynnwys casglu cyngor arbenigol annibynnol er mwyn cael gwybodaeth fanylach ac eglurder ar gyfleoedd a phroblemau posib, ac i adrodd yn ôl i'r Cyngor gyda dealltwriaeth ehangach cyn unrhyw gais i'r Cyngor ymgysylltu'n ffurfiol â'r broses gynllunio; ac

2. Os aiff y cynllun yn ei flaen, y caiff Swyddogion eu hawdurdodi i;

   (i) drafod ymhellach gyda datblygwyr y project er mwyn cadarnhau Cytundeb Perfformiad Cynllunio sy'n sicrhau'r adnoddau angenrheidiol i alluogi'r Cyngor i gyflawni'r dyletswyddau gofynnol wrth i'r project symud drwy'r broses gynllunio.

   (ii) cwblhau gwerthusiad manwl o oblygiadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y project i Gaerdydd, ac

   (iii) ymgysylltu gyda datblygwyr y project i ddeall yn well y budd cyhoeddus fyddai ar gael yn erbyn y peryglon posib.

## 51 ADRODDIAD PERFFORMIAD CHWARTER 2 2016-17

Derbyniodd y Cyngor adroddiad perfformiad Chwarter 2 (mis Gorffennaf tan fis Medi) blwyddyn ariannol 2016-17. Nodwyd bod 60% o Ymrwymiadau'r Cynllun Corfforaethol yn Wyrdd a bod 62% o'r Dangosyddion Perfformiad yn wyrdd.

**PENDERFYNWYD:** y nodir y sefyllfa bresennol o ran perfformiad, sut mae cyflawni ymrwymiadau a blaenoriaethau fel yn Chwarter 2, a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â materion sy'n achos pryder.

## 52 MONITRO CYLLIDEB – ADRODDIAD MIS 6

Ystyriodd y Cabinet sefyllfa Monitro'r Gyllideb ar gyfer mis 6. Roedd y sefyllfa gyffredinol yn darogan gorwariant o £537,000 sef gwelliant o £313,000 ar sefyllfa mis 4. Mae'r sefyllfa gyffredinol yn parhau i adlewyrchu'r pwysau ariannol a'r diffygion yn erbyn targedau arbedion cyllideb yng nghyllidebau cyfarwyddiaethau. Rhagwelir

y bydd camau gan reolwyr yn ystod y flwyddyn yn galluogi hyn i gael ei leihau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**PENDERFYNWYD:** y dylai

1. sefyllfa alldro posib ar sail pedwar mis cyntaf y flwyddyn ariannol gael ei nodi;

2. Y gofyn ar yr holl gyfarwyddiaethau sydd ar hyn o bryd yn cofnodi gorwario fel y nodir yn yr adroddiad, i atgyfnerthu eu camau gweithredu sydd ar waith i ostwng y gorwario a ragfynegir.

## 53 CYNIGION TREFNIADAETH YSGOLION: DARPARU LLEOEDD MEWN YSGOLION CYNRADD CYMRAEG A SAESNEG YN WARDIAU ADAMSDOWN A SBLOT.

Derbyniodd y Cabinet adroddiad yn manylu ar yr amrywiad arfaethedig i Gynnig Trefniadaeth Ysgolion a gytunwyd arno yn ymwneud â darparu lleoedd mewn ysgolion cynradd Cymraeg a Saesneg yn wardiau Adamsdown a Sblot. Yn dilyn derbyn data poblogaeth cyn-ysgol wedi ei ddiweddaru, nodwyd bod y galw am leoedd cynradd yn wardiau Adamsdown a Sblot yn mynd i leihau ac felly bod hi'n angenrheidiol i amrywio'r cynnig blaenorol.

**PENDERFYNWYD:** y dylai

1. Swyddogion gael eu hawdurdodi i ofyn am Gytundeb gan Weinidogion Cymru i'r amrywiad arfaethedig ar y drefniadaeth hysgol a gytunwyd arno fel y'i nodwyd ym mharagraff 7.

2. Swyddogion gael eu hawdurdodi i adolygu rhagfynegiadau a galw am leoedd cynradd cyfrwng Saesneg yn yr ardal i fwydo'r camau nesaf yn yr ehangu arfaethedig o Ysgol Gynradd Moorland.

3. yr oedi ar y dyddiad cwblhau ar gyfer cyflenwi'r ysgol adeilad newydd ar gyfer Ysgol Glan Morfa fel y nodwyd ym mharagraff 11 gael ei nodi.

## 54 COMISIYNU ADNEWYDDU FFRAMWAITH GWASANAETHAU CYNNAL A CHADW ADEILADAU

Ystyriodd y Cabinet y comisiynu arfaethedig o adnewyddu'r fframwaith cynnal a chadw adeiladau. Gwerth blynyddol y fframwaith yw £25.7 miliwn, mae'r fframwaith arfaethedig yn ceisio mynd i'r afael ag ystod o anawsterau arwyddocaol gyda'r trefniadau amrywiol blaenorol ar gyfer cyflenwi a rheoli cynnal a chadw a gwella adeiladau.

**PENDERFYNWYD:** y dylai

1. y strategaeth ar gyfer comisiynu Atgyweirio a Chynnal Tai ac Addasiadau Anabl fel y nodwyd yn yr adroddiad hwn gael ei chymeradwyo.

2. Awdurdod gael ei ddirprwyo i Gyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaeth Cwsmeriaid, mewn ymgynghoriad â’r aelod portffolio dros Iechyd, Tai a Llesiant a’r Swyddog sector 151 a Chyfreithiwr y Ddinas, i ymdrin â phob agwedd ar y caffael yn ymwneud â Chynnal ac Atgyweirio Tai ac Addasiadau Anabl, gan gynnwys gosod meini prawf gwerthusiad y contract a dyfarnu contractau.

3. Awdurdod gael ei ddirprwyo i Gyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid i wneud y trefniadau cytundebol dros dro sy’n angenrheidiol i sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau nes bod y contractau newydd yn eu lle.

4. Ail-gomisiynu gwasanaethau Annomestig gael ei gymryd yn ei flaen fel ail gam ac y bydd yn destun adroddiad cabinet ar wahân, gael ei nodi.